

# Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol, 2015-20

---

Amgueddfa Cymru

**Awst 2015**

<b>1. Crynodeb</b> .....	<b>4</b>
<b>2. Cyflwyniad</b> .....	<b>5</b>
<b>3. Cyd-destun Polisi Gwleidyddol</b> .....	<b>7</b>
<b>4. Ymgysylltu Cymunedol mewn Amgueddfeydd</b> .....	<b>10</b>
<b>5. Amcanion a Gwerthoedd Strategol</b> .....	<b>13</b>
5.1. Amcan Strategol 1 .....	14
Projectau gweddnewid: defnyddio projectau allweddol i dreialu dulliau newydd a gweddnewid ein gwasanaethau .....	14
5.2. Amcan Strategol 2 .....	14
Eiriolaeth a chyfathrebu: dathlu a gwerthfawrogi ein hamgueddfeydd fel lleoedd i gymunedau.....	14
5.3. Amcan Strategol 3 .....	14
Amgueddfa ddigidol gydgysylltiedig: ymgysylltu â'n cymunedau ar-lein.....	14
5.4. Amcan Strategol 4 .....	14
Partneriaethau strategol: anghenion, gwerthoedd a dyheadau cymunedol yn hybu cydweithio .....	14
5.5. Amcan Strategol 5 .....	15
Rhaglenni cyhoeddus: cryfhau sgiliau a gallu cymunedol a chynrychiolaeth ddiwylliannol.....	15
5.6. Amcan Strategol 6 .....	15
Datblygu gwybodaeth: gwaith ymchwil yn sail i waith ymgysylltu cymunedol .....	15
5.7. Amcan Strategol 7 .....	15
Perfformiad ariannol a llywodraethu: adeiladu gwasanaeth cynaliadwy .....	15
<b>6. Amcanion Galluogi</b> .....	<b>16</b>
6.1. Ein pobl .....	16
6.2. Ein diwylliant.....	16
6.3 Ein casgliadau.....	16
6.4. Ein systemau.....	17
6.5. Ein seilwaith.....	17
<b>7. Heriau</b> .....	<b>17</b>
7.1. Dulliau gweithio .....	17
7.2. Mesur effaith.....	18
7.3. Ariannol .....	19
7.4. Amrywiaeth ein cyrhaeddiad.....	20
7.5. Sgiliau staff .....	21
<b>8. Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Cymunedol</b> .....	<b>22</b>
<b>Atodiad 1: Menter <i>Our Museum</i></b> .....	<b>38</b>
1.1. Y cefndir .....	38
1.2. Pa effaith mae'n ei chael? .....	39
1.3 Y tîm ymgysylltu.....	40

<b>Atodiad 2: Rhestr o'r staff a'r partneriaid cymunedol a gymerodd ran mewn gweithdai ar 19 Ionawr a 2 Mawrth 2015 .....</b>	<b>41</b>
<b>Atodiad 3: Mentrau Llywodraeth Cymru .....</b>	<b>43</b>
3.1. Strategaeth Tlodi Plant, 2011 .....	43
3.2. Cymunedau yn Gyntaf .....	44
3.3. Ardaloedd Arloesi, 2014 .....	44
3.4. Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2014 .....	45
<b>Atodiad 4: Rhestr o'r partneriaid allweddol strategol cyfredol .....</b>	<b>47</b>
<b>Atodiad 5: Ymchwil i effeithiau cymdeithasol cyfranogiad diwylliannol .....</b>	<b>53</b>
<b>Atodiad 6: Gweddnewid Dyfodol Plant .....</b>	<b>55</b>
<b>Atodiad 7: Llyfryddiaeth .....</b>	<b>57</b>

## 1. Crynodeb

Mae'r strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer gwaith Amgueddfa Cymru ym maes ymgysylltu cymunedol dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n canolbwyntio ar bwysigrwydd gwreiddio'r gwaith mewn anghenion lleol a chysylltu'r anghenion hynny ag agendâu cenedlaethol ehangach Cymru. Bydd gwasanaeth cymunedol<sup>1</sup> wrth galon ein prosesau penderfynu a bydd cyfranogiad a chydweithrediad rheolaidd yn rhan sylfaenol o'n ffordd o weithio. Trwy adnabod a deall y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well, gallwn sicrhau ein bod yn chwarae rhan fwy effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau, creadigrwydd a lles.

Bydd y strategaeth a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol, tra'n sicrhau y defnyddiwn ddull mwy strategol wrth wneud gwaith ymgysylltu. Bydd hyn yn ein helpu i:

- flaenoriaethu ein gwaith a gwneud defnydd gwell o'n hadnoddau
- sicrhau cysondeb yn ein dulliau a'n fframweithiau ymgysylltu
- gwneud y gorau o'r potensial i fodloni anghenion a chyflawni dyheadau cymunedau
- cynnal perthnasau a meithrin partneriaethau allweddol sy'n canolbwyntio ar feysydd gwaith neilltuol
- seilio ein gwaith ar waith ymchwil cyfredol a rhannu'r hyn a ddysgir o brojectau allweddol
- datblygu sgiliau ac arbenigedd ein staff yn y maes gwaith hwn.

Byddwn yn cydweithio ag asiantaethau diwylliannol cenedlaethol, arianwyr ac awdurdodau lleol i osod ymgysylltu â dinasyddion yng nghyd-destun ehangach hawliau diwylliannol pobl. Gallwn gynyddu gwerth y gwaith trwy gydgyhyrchu

---

<sup>1</sup> Diffiniad Sefydliad Paul Hamlyn o wasanaeth cymunedol: "*Communities are sustainably at the core of all values, strategies, structures and work of museums and galleries: actively and regularly participating and collaborating in dialogue and decision-making about the work of the museum*".

gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Nid yw'r dull hwn o weithio yn hawdd ond bydd yn creu amgueddfeydd mwy cymdeithasol a democrataidd.

Gall amgueddfeydd fod yn llefydd sy'n ysgogi sgysiau a thrafodaethau cymunedol. Maent yn llefydd dadleuol a gwleidyddol. Yn aml, mae gwrthdaro'n hanfodol i hunanbenderfyniad a hunaniaeth. Mae'r dull hwn o weithio, yn ei hanfod, yn fwy democrataidd gan ei fod yn parchu'r rhan y mae'r boblogaeth gyfan yn ei chwarae mewn datblygiad diwylliannol. Mae pobl sy'n ymweld ag amgueddfeydd yn perthyn i ddiwylliannau a chymunedau amrywiol; maent yn meddu ar ddiwylliant ac yn cyfrannu ato yn hytrach na dim ond ei dderbyn yn oddefol. Felly, mae ganddynt hawl i gyfrannu at gofnodi, trafod a dehongli'r diwylliant hwnnw.

## 2. Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys datblygu a chyflawni ein gwaith ymgysylltu cymunedol ar draws yr amgueddfeydd a'r casgliadau yn y tymor byr (2015-17) a'r tymor canolig (2018-2020). Fe'i datblygwyd yn unol â'r Weledigaeth newydd ar gyfer Amgueddfa Cymru, *Ysbrydoli pobl, newid bywydau* (2015-2025). Ein pwrpas, a ddiffinnir yn y Weledigaeth, yw: trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Mae'r gwerthoedd sy'n sylfaen i'r Weledigaeth yn llywio ein blaenoriaethau a'n dulliau gweithio ym maes Ymgysylltu Cymunedol:

Gwerthoedd sefydliadol	Esiaml ymddygiad
Gwasanaeth cyhoeddus	Rydym yn gwneud ein gorau i wasanaethu er budd y cyhoedd a sicrhau fod gan bawb gyfle cyfartal i gymryd rhan
Gonestrwydd	Rydym yn gweithredu'n onest, rydym yn ddibynadwy ac yn foesebol

<b>Tegwch</b>	Rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder i'r cyhoedd a'n staff
<b>Amrywiaeth</b>	Rydym yn parchu amrywiaeth ac yn gweithio'n bositif mewn gweithle cynhwysol ac addysgol

Mae ymgysylltiad a chyfranogiad cyhoeddus yn ymwneud lawn gymaint â'r ffordd yr ydym yn gweithredu fel amgueddfa lawn ag â'r profiadau a ddarparwn i'n hymwelwyr. Rydym am greu amgueddfeydd sy'n cael eu llunio a'u llywio gan anghenion y cymunedau a wasanaethwn. Yn achos pob un o'r amgueddfeydd cenedlaethol a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol, y casgliadau sydd yn eu gofal, y cymunedau sy'n gartref iddynt a'r gymdeithas maent yn rhyngweithio ag ef sy'n pennu pa fath o ymgysylltiad cymunedol sy'n addas. Dylai'r math addas o ymgysylltiad ymateb i'r anghenion a'r gofynion lleol, ond dylai hefyd gyfateb i bolisiau ac agendâu cenedlaethol. Gan fod gennym amgueddfeydd gwledig a threfol, rydym yn gweithio gydag amryw o bartneriaid lleol a chenedlaethol er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion yn y ffordd fwyaf priodol. Mae pedair o'n hamgueddfeydd yn y de-ddwyrain, ardal fwyaf poblog Cymru.

Llywiwyd y strategaeth gan Archwiliad Cynhwysiant ac Ymgysylltu Cymunedol o'n gwaith a gyflwynwyd ym mis Awst 2014.<sup>2</sup> Fe'i lluniwyd yn unol â'n Cynllun Ymgynghori a'n Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori Cyhoeddus. Mae ein rhan yn y fenter, a ariannwyd gan Sefydliad Paul Hamlyn, wedi dylanwadu arni hefyd. Nod menter *Our Museum*, a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig, yw hwyluso proses o ddatblygu a newid sefydliadol mewn amgueddfeydd ac orielau sydd wedi ymroi i ffurfio partneriaethau egniol â'u cymunedau, gyda'r uchelgais o ddylanwadu ar y sector amgueddfeydd ehangach. Mae mwy am fenter *Our Museum* yn Atodiad 1.

---

<sup>2</sup> Cynhaliwyd yr adolygiad gan Jael Edwards, Ymgynghorydd Addysg Diwylliannol a Chreadigol, Ionawr-Awst 2014.

Bu gweithgor yn cynnwys staff a phartneriaid cymunedol yn llywio cyfeiriad a chynnwys y strategaeth. Dylanwadwyd ar y strategaeth hefyd gan ymgynghoriad â staff yn holl safleoedd Amgueddfa Cymru ac ar draws adrannau rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2014. Mae'r strategaeth yn un weithredol a bydd yn datblygu wrth i'n perthynas ni â phartneriaid cymunedol esblygu.

Defnyddiwyd y diffiniadau a ganlyn yn sail ar gyfer ein gwaith ymgysylltu cymunedol.

---

## **Cymuned**

Grŵp penodol o bobl sy'n teimlo bod cysylltiad rhyngddynt ar sail:

- Ardal: pobl sy'n byw yn yr un man (e.e. ystâd o dai, pentref neu ardal ddinesig)
- Hunaniaeth gyffredin (e.e. grŵp Lesbaid, Hoyw a Deurywiol a Thrawsrywiol, dysgwyr Cymraeg neu Fforwm Ieuencid)
- Diddordebau neu arferion tebyg (e.e. crefft, gwyddoniaeth, hanes lleol neu achos gwleidyddol)

---

## **Ymgysylltu cymunedol**

Proses wedi'i chynllunio ac sy'n gweithio o'r ddau gyfeiriad i ddatblygu perthynas â chynulleidfaoedd targed allweddol dros amser. Mae gan y rhaglenni nodau ac amcanion clir sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall e.e. rydym yn dod yn rhan mwy perthnasol a sylfaenol o fywyd y gymuned, ac mae hynny'n gweddnewid ein hunaniaeth a'n blaenoriaethau. Nid yw'r ymgysylltu yn statig, ac mae angen ei adolygu'n gyson.

---

## **Priod gymuned**

Pobl sy'n teimlo cysylltiad arbennig â'r gwrthrychau e.e. am eu bod yn hanu o'r un ardal neu am fod gwrthrych yn cynrychioli daliadau gwleidyddol neu gred arbennig y bobl hynny.

---

### **3. Cyd-destun Polisi Gwleidyddol**

*Mae ein diwylliant a'n treftadaeth yn gaffaeliad cenedlaethol pwysig, a rhaid inni gydweithio'n galetach er mwyn i'r cymunedau sydd mewn angen elwa amynt. Rwy'n hynod falch y bydd yr Ardaloedd Arloesi yn gallu dangos cyn bo hir sut y gall hyn weithio. Byddant wedyn yn ysbrydoli Cymru gyfan i wneud y gorau o'r doniau a'r sgiliau sy'n bodoli ymhob cymuned.*<sup>3</sup>

---

<sup>3</sup> Ymateb Ken Skates, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i Adroddiad y Farwnes Kay Andrews, *Diwylliant a Thlodi*, 11 Tachwedd 2014.

<http://gov.wales/newsroom/cultureandsport/2014/141111-pioneer-areas>

Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

*Mae gan blant yr hawl i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ac adloniadol ... bywyd diwylliannol a'r celfyddydau'.*

Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

*Mae gan bawb yr hawl i gyfranogi'n rhydd ym mywyd diwylliannol y gymuned, i fwynhau'r celfyddydau ac i rannu mewn cynnydd gwyddonol a'i fanteision.*

Erthygl 27 o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol.

Mae un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi - y gyfradd uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae byw mewn cartref incwm isel yn golygu bod heb ddigon o arian, dillad, cyfleoedd i chwarae, bwyd, cefnogaeth, gwasanaethau na phethau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cael bywyd iach. Gall magwraeth mewn tlodi effeithio ar iechyd, addysg a dyfodol economaidd plant - eu cyfleoedd a'u posibiladau mewn bywyd. Mae cyfradd ddiweithdra pobl ifanc 16-25 oed yng Nghymru dros 20% ar hyn o bryd - sydd hefyd yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae gwaith ymchwil yn dangos hefyd nad oes gan 25% o oedolion Cymru sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb er mwyn rhoi'r cyfle i bobl wneud y gorau o'u bywydau.

Rydym wedi ymroi i gefnogi Agenda Strategol Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'i Rhaglen Lywodraethu, 2011-2016. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gweithredol i helpu i wella bywydau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n byw mewn tlodi. Mae dau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*, gan y Farwnes Kay Andrews, a'r *Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru*, gan yr Athro Dai Smith, yn tynnu sylw at anghydraddoldeb a thlodi mewn cyfranogiad diwylliannol yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith pobl ifanc, rhai ohonynt yn byw mewn ardaloedd â'r lefelau tlodi uchaf yn



Ewrop. A ninnau'n gorff sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae dyletswydd arnom i sicrhau democratiaeth ddiwylliannol a mynediad i bawb.

Bu Cymru ar flaen y gad yn y Deyrnas Unedig yn diogelu ac yn hybu hawliau plant a phobl ifanc. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i benodi Comisiynydd Plant. Nod Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yw dileu tlodi plant yng Nghymru ac fe roddodd ddyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ddatblygu a llunio Strategaeth Tlodi Plant.<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y Deyrnas Unedig i weithredu darpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).<sup>5</sup> Dyma sylfaen saith nod craidd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

Yn 2009, llofnododd Amgueddfa Cymru'r Cytundeb Tlodi Plant, gan ymrwymo i weithredu i helpu i wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Yn rhan o *Gweddnewid Dyfodol Plant*<sup>6</sup>, sef ein strategaeth i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, lluniwyd Cynllun Gweithredu'r agenda hon yn 2012-2015. Wrth fynd ati i ymsefydlu'r gwaith, bydd Cynllun Gweithredu 2015 ymlaen yn dod yn rhan ganolog o'r strategaeth hon.

Byddwn yn gosod ymgysylltu â dinasyddion yng nghyd-destun hawliau. Byddwn yn ystyried yr arferion gweithio presennol a lefelau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, gan ddefnyddio'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.<sup>7</sup> Ochr yn ochr â hyn, byddwn hefyd yn cynnal

---

<sup>4</sup> Mae Strategaeth Gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru dan adolygiad ar hyn o bryd.

<sup>5</sup> [www.unicef.org/crc](http://www.unicef.org/crc)

<sup>6</sup> Amgueddfa Cymru, *Gweddnewid Dyfodol Plant drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol: Strategaeth Amgueddfa Cymru i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi 2012-2015* (2012) [www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid\\_dyfodol](http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol)

<sup>7</sup> Rydym wedi cytuno i gefnogi'r rhain fel a nodwyd yn ein Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori Cyhoeddus.

cyfres o 'Sgyrsiau Mawr' gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn datblygu fframwaith ymgysylltu a thrafod moeseg cyfranogi. Rydym yn dysgu sut i wneud hyn yn well trwy gydweithio'n agos â phartneriaid, er enghraifft, Dinas a Sir Abertawe, sydd wedi bod yn datblygu'r ffordd hon o weithio ar draws nifer fawr o'u gwasanaethau. Gobeithio y bydd sefydlu'r Rhaglen Ardaloedd Arloesi (i roi argymhellion adroddiad y Farwnes Andrews ar waith) yn creu llwyfan ar gyfer gweithio ar draws sectorau yng Nghymru.

#### 4. Ymgysylltu Cymunedol mewn Amgueddfeydd

*Engagement with culture enriches people's experience to the degree that it creates healthier, more flourishing lives...the issue of democratic access is critical.*

Mark O'Neill, 'Cultural attendance and public mental health – from research to practice', *Journal of Public Mental Health*, Cyfrol 9, rhifyn 4, 2010.

*The funding invested in public engagement and participation in the UK's museums and galleries has not significantly succeeded in shifting the work from the margins to the core of many of these organisations...This situation becomes even clearer now that the external funding streams are under serious threat...rather than further relegate participation to the margins, however, this could be an opportunity to mainstream this work and refocus on longer-term impact and solutions.*

Bernadette Lynch, *Whose cake is it anyway? A collaborative investigation into engagement and participation in 12 museums and galleries in the UK*, 2011.<sup>8</sup>

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ymroi fwyfwy i gasglu barn y cyhoedd am wasanaethau megis iechyd, addysg, tai a

---

<sup>8</sup> Noddwyd yr adroddiad gan Sefydliad Paul Hamlyn ac roedd yn sail i fenter *Our Museum*.

gwasanaethau cymdeithasol trwy wahanol ddulliau er enghraifft, byrddau ymgysylltu. Mae'r oes ddigidol wedi gwednewid y ffordd mae'r cyhoedd yn cyfrannu at gynhyrchu a defnyddio gwybodaeth. Gan fod nifer gynyddol o bobl yn cymryd rhan yn y gymdeithas sifil yn gyffredinol, mae amgueddfeydd wedi bod yn cydweithio'n uniongyrchol â chymunedau ac mae gwaith ymgysylltu wedi bod yn ehangu. Mae amgueddfeydd wedi dechrau cynnwys pobl yn eu prosesau gwaith yn ogystal ag yng nghynnyrch eu gwaith, er enghraifft trwy gynllunio ymgynghoriadau mawr am brojectau datblygu cyfalaf a chynnwys adborth y cyhoedd ynghylch dulliau arddangos casgliadau a chyd-ddatblygu polisïau a strategaethau. Ond mae'n bosib bod y gwaith yma wedi bod yn orddibynnol ar brojectau ailddatblygu mawr a mentrau dan nawdd allanol, yn hytrach na chyllideb graidd amgueddfeydd.

Mae amgueddfeydd Tyne and Wear (*Making History*, 2000), Amgueddfa Llundain (*Collecting 2000*) ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (*Hello Sailor*, 2007-09) wedi gwneud gwaith i gasglu a dehongli straeon a hanesion amgen ac amrywiol trwy ymgysylltu cymunedol. Defnyddiwyd casgliadau gwyddoniaeth mewn ffyrdd gwahanol gan Thinktank yn Birmingham (*We Made It*, 2007). Yn rhan o gynllun arbrofol tymor hir o'r enw *City as Muse*, defnyddiodd Museum Rotterdam arferion gwaith maes anthropolegol gan gynnwys arsylwi cyfranogiaid a chyfweliadau trylwyr i ddarganfod tueddiadau a hanesion cudd y ddinas. Mae gan yr amgueddfa hanes hir o gynnal projectau cyfranogol sy'n diosg muriau'r amgueddfa ac yn ailgysylltu â bywyd y ddinas. Yn fwy diweddar, mae The Happy Museum a Chymdeithas yr Amgueddfeydd hefyd wedi bod yn hyrwyddo ffyrdd mwy cyfranogol o weithio er mwyn cael effaith bositif ar iechyd, lles a chanlyniadau cymdeithasol eraill. Ond, hyd yma, nid yw'r ffordd hon o weithio'n arferol. Yn aml, nid yw'n cael ei gydnabod yn waith craidd amgueddfa ac nid yw wedi arwain at strwythurau a dulliau gweithio sylfaeno, newydd neu wahanol. Mae lansiad Cynghrair Cyfiawnder Cymdeithasol Amgueddfeydd yng Nghynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd ym mis Tachwedd 2013 yn dangos

y cymerwyd camau cadarnhaol tuag at gynhwysiant cymdeithasol, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd.

Mae mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol o ganlyniad i dlodi ymhlith ymrwmiadau allweddol Amgueddfa Cymru. Roedd *Gweddnewid Dyfodol Plant drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol*, a gyhoeddwyd yn 2012, yn pennu ein nodau strategol er mwyn mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a phobl ifanc.<sup>9</sup>

Ymhlith yr enghreifftiau llwyddiannus o'n gwaith ymgysylltu cymunedol, mae project a pheycyn adnoddau *Traed mewn Cyffion*.<sup>10</sup> Mae project ailddatblygu Sain Ffagan yn arloesi trwy sicrhau newid diwylliannol yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl Cymru. Ar ôl ymgynghori â thros ddau gant o sefydliadau allanol yn ystod y cyfnod cynllunio, erbyn hyn rydym yn gweithio gyda naw fforwm cyfranogi. Mae'r cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a chymunedau amrywiol Cymru yn llywio'r ailddatblygiad a chynnwys yr orielau. Mae rhagor o wybodaeth am ein Fforymau Cyfranogi yn Atodiad 4. Rydym yn dysgu llawer wrth ddefnyddio'r dull arbrolfol hwn. Mae'r dull hwn o weithio'n cael ei gynnwys yn rhaglen Datblygu Cysyniad yr Amgueddfa Hanes Natur, sef cam cynllunio'r project i ailarddangos casgliadau'r gwyddorau naturiol.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, astudiwyd cyfranogiad a chynhwysiant trwy waith amgueddfeydd yn helaeth.<sup>11</sup> Mae'r astudiaethau hyn yn tanlinellu

---

<sup>9</sup> Amgueddfa Cymru, *Gweddnewid Dyfodol Plant drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol: Strategaeth Amgueddfa Cymru i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi 2012-2015* (2012) [www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid\\_dyfodol](http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol)

<sup>10</sup> [www.amgueddfacymru.ac.uk/ymgynghori/dod\\_i\\_ben/traed\\_mewn\\_cyffion](http://www.amgueddfacymru.ac.uk/ymgynghori/dod_i_ben/traed_mewn_cyffion)

<sup>11</sup> Ymhlith gwaith ymchwil diweddar yn y maes, mae Graham Black, *The Engaging Museum* (2005), Sheila Watson gol., *Museum and their Communities* (2007), Nina Simon, *The Participatory Museum* (2010) a Janet Marstine, Alexander Bauer a Chelsea Haines gol., *New Directions in Museum Ethics* (2013), Jocelyn Dodd a Ceri Jones, *Mind, body, spirit: How museums impact health and well-being* (2014).

pwysigrwydd cynnwys unigolion a chymunedau ym mhob agwedd ar waith amgueddfeydd: wrth gyflwyno a dehongli casgliadau, llunio rhaglenni cyhoeddus a chynrychioli cefndiroedd a safbwyntiau amrywiol. Mae'r berthynas ag unigolion a chymunedau yn newid o rai sy'n 'defnyddio a dewis' i rai sy'n 'llunio a llywio'.<sup>12</sup> Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith ymchwil ar effeithiau cymdeithasol cyfranogiad cyhoeddus yn Atodiad 5.

## 5. Amcanion a Gwerthoedd Strategol

Ein gweledigaeth gorfforaethol 10 mlynedd, *Ysbrydoli pobl, newid bywydau* (2015), yw sylfaen y strategaeth hon. Mae ymgysylltu cymunedol yn rhan hanfodol o'r pum ymrwymiad a wnaed:

- **Gwneud gwahaniaeth i Gymru:** newid bywydau trwy weithio gyda chyrrff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu.
- **Profiad amgueddfa:** mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau.
- **Profiad ar-lein:** mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgyssylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu.
- **Addysg a chreadigrwydd:** mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu.
- **Cyfranogiad a chynhwysiant:** mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trawsddiwylliannol, cynhwysol a hygyrch a luniwyd ganddynt.

---

<sup>12</sup> Andrea Cornwall a John Gaventa, *From users and choosers to makers and shapers: Repositioning participation in social policy*. Brighton: Institute of Development Studies Working Paper 127, (2001). Trafodir y gwaith hwn gan Bernadette Lynch, 'Whose cake is it anyway?': museums, civil society and the changing reality of public engagement' yn *Museums and Migration* (2014).

Mae'r Amcanion Ymgysylltu Cymunedol yn ymateb yn uniongyrchol i Amcanion a Gwerthoedd y Weledigaeth ac yn amlinellu'r gwaith sy'n rhaid i ni ei wneud er mwyn cyflawni ein hymrwymiaidau:

### **5.1. Amcan Strategol 1**

**Projectau gwednewid: defnyddio projectau allweddol i dreialu dulliau newydd a gwednewid ein gwasanaethau**

5.1.1. Mae cymunedau ac asiantaethau wrth wraidd ein prosesau penderfynu.

### **5.2. Amcan Strategol 2**

**Eiriolaeth a chyfathrebu: dathlu a gwerthfawrogi ein hamgueddfeydd fel lleoedd i gymunedau**

5.2.1. Mae staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid yn deall ein gwaith ymgysylltu'n well.

5.2.2. Mae rhwydweithiau cymunedol yn hyrwyddo ein gwaith ymgysylltu.

5.2.3. Caiff ein gwaith ymgysylltu cymunedol ei gydnabod a'i ddathlu fel enghraifft o arfer orau.

### **5.3. Amcan Strategol 3**

**Amgueddfa ddigidol gydgysylltiedig: ymgysylltu â'n cymunedau ar-lein**

5.3.1. Mae cymunedau'n cysylltu â chasgliadau'r amgueddfa ar-lein, yn eu rhannu ac yn eu datblygu.

### **5.4. Amcan Strategol 4**

**Partneriaethau strategol: anghenion, gwerthoedd a dyheadau cymunedol yn hybu cydweithio**

5.4.1. Mae pobl sydd mewn tlodi neu berygl yn elwa o wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n well.

5.4.2. Mae partneriaid allweddol yn llunio adnoddau'r amgueddfa ac yn eu datblygu a'u defnyddio er mwyn diwallu eu hanghenion.

## **5.5. Amcan Strategol 5**

### **Rhaglenni cyhoeddus: cryfhau sgiliau a gallu cymunedol a chynrychiolaeth ddiwylliannol**

5.5.1. Mae cymunedau'n teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli'n well a bod y casgliadau'n fwy amrywiol.

5.5.2. Caiff cymunedau sydd mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog eu blaenoriaethu a'u cefnogi.

5.5.3. Mae rhannu sgiliau a gwirfoddoli yn y gymuned yn rhan hanfodol o brosesau a rhaglenni ein hamgueddfeydd.

5.5.4. Cefnogi diwydiannau creadigol Cymru a hybu iechyd a lles ein cymunedau yw sylfaen ein rhaglenni ymgysylltu.

## **5.6. Amcan Strategol 6**

### **Datblygu gwybodaeth: gwaith ymchwil yn sail i waith ymgysylltu cymunedol**

5.6.1. Mae canlyniadau ymchwil yn casglu effeithiau personol, economaidd a chymdeithasol ein gwaith yn unol â'n Strategaeth Ymchwil Ymwelwyr.

5.6.2. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol ansoddol yn rhoi gwell disgrifiad o'n gwaith a gwell adroddiadau amdano i Lywodraeth Cymru.

5.6.3. Mae'r staff yn defnyddio methodolegau amrywiol wrth ymchwilio a gwerthuso, gan gynnwys dysgu trwy weithredu.

## **5.7. Amcan Strategol 7**

### **Perfformiad ariannol a llywodraethu: adeiladu gwasanaeth cynaliadwy**

5.7.1. Mae ceisiadau am gyllid ar y cyd yn gwneud y mwyaf o botensial adnoddau ar draws sectorau.

5.7.2. Mae gan gymunedau lais yn y ffordd y llywodraethir Amgueddfa Cymru.

## **6. Amcanion Galluogi**

Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ymgysylltu cymunedol, rydym yn datblygu ffyrdd mwy hyblyg a strategol o weithio. Mae'r amcanion galluogi isod yn ymateb yn uniongyrchol i'n Gweledigaeth:

### **6.1. Ein pobl**

6.1.1 Mae'r staff yn cefnogi gwerthoedd ein gwaith ymgysylltu ac mae'r sgiliau angenrheidiol ganddynt i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau.

### **6.2. Ein diwylliant**

6.2.1. Mae modelau arweinyddiaeth gysylltiol yn cefnogi gwaith ymgysylltu cymunedol.

6.2.2. Gwneir gwaith ymgysylltu cymunedol mewn ffordd strategol ar draws Amgueddfa Cymru, mae'n rhan hanfodol o'r gwaith ac mae pob aelod o staff yn gyfrifol amdano.

6.2.3. Mae staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid yn trafod ein gwaith, yn ei rannu, yn myfyrio arno ac yn ei ddathlu.

### **6.3 Ein casgliadau**

6.3.1. Mae gwaith ymgysylltu cymunedol a'i ganlyniadau'n rhan hanfodol o'n polisiau, ein strategaethau a'n gweithgareddau casglu a gwaith ymchwil.

6.3.2. Ceir gwell mynediad at gasgliadau sydd mewn stôr at ddibenion ymgysylltu cymunedol.

6.3.3. Mae pecynnau fflach amgueddfa cludadwy yn hybu gwaith ymgysylltu cymunedol pob amgueddfa.



## 6.4. Ein systemau

6.4.1. Rydym yn monitro ac yn meincnodi safonau, prosesau a pherfformiad er mwyn sicrhau cysondeb a safon uchel y gwasanaeth.

6.4.2. Rydym yn darparu systemau hyblyg ar draws sefydliadau er mwyn gwneud y mwyaf o'n hadnoddau wrth gynllunio amser staff a dyraniad cyllidebau.

6.4.3. Mae systemau mynediad at gasgliadau wedi'u sefydlu er mwyn cefnogi gwaith allgymorth a mewngymorth sy'n ymwneud â'r casgliadau.

## 6.5. Ein seilwaith

6.5.1. Mae gofodau a lleoliadau amgueddfa newydd yn adlewyrchu'r egwyddorion allweddol ar gyfer diwallu anghenion cymunedau amrywiol.

6.5.2. Mae gweithdrefnau iechyd a diogelwch a rheoli risg yn cefnogi gwaith ymgysylltu cymunedol.

## 7. Heriau

A ninnau'n gorff cyhoeddus yng Nghymru, mae'r strategaeth hon yn cydnabod y byddwn yn wynebu nifer o sialensiau - economaidd, sefydliadol a gwleidyddol - dros y pum mlynedd nesaf.

### 7.1. Dulliau gweithio

Mae angen newid diwylliant rhannau o'r corff er mwyn i nodau'r strategaeth hon lwyddo. Mae'n rhaid i holl aelodau'r staff gefnogi gwerthoedd Amgueddfa Cymru a gweithredu arnynt. Mae ymgysylltu cymunedol yn dibynnu ar ymddiriedaeth mewn perthnasau ac mae'n rhan hanfodol o waith staff ar draws adrannau.

Bydd angen i bob adran ac amgueddfa, dan arweiniad Ceidwaid, penaethiaid adran a rheolwyr safleoedd a chyda chefnogaeth y Cyfarwyddwyr, ymrwymo i roi gwasanaeth cymunedol wrth wraidd prosesau penderfynu'r amgueddfa. Trwy

droi'r amgueddfa ar ei ben a throi prosesau'r amgueddfa yn gyfleoedd i ymgysylltu, gellir newid a herio ein dulliau gweithio. Nid yw'r gwaith yn hawdd ac mae angen bod yn hyblyg ac yn fodlon gwranddo ac addasu. Mae ymgysylltu cymunedol yn broses sy'n esblygu'n barhaus.

Mae llawer o enghreifftiau o arfer orau o fewn y corff, ond nid ydym eto wedi canfod ffordd o rannu'r arferion hyn ar draws adrannau ac amgueddfeydd. Yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid ac unigolion allanol, ein nod yw ymgysylltu â'r staff mewnol trwy nifer o ddulliau gweithredu, ar draws adrannau a graddau. Y nod yw creu ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb, ynghyd â chynyddu sgiliau a hyder Amgueddfa Cymru gyfan.

O fewn y corff, ychydig iawn o waith ymchwil a wnaed ar ein gwaith ymgysylltu cymunedol. Mae'n bwysig datblygu sgiliau, arbenigedd a hyder ein staff yn y maes gwaith hwn. Hefyd, rhaid i ni feithrin gwell rhwydweithiau gydag ymchwilwyr yn y gwyddorau cymdeithasol mewn prifysgolion a llwyr gydnabod arbenigedd ein partneriaid cymunedol yn y maes gwaith hwn.

Gall gweithio ar draws adrannau ac amgueddfeydd fod yn dipyn o her. Ar hyn o bryd, nid oes strwythurau na fframweithiau ar gyfer rhannu a dosbarthu gwaith ymgysylltu cymunedol. Rhaid mynd i'r afael â phennu strwythurau/fframweithiau newydd, canfod pwy yw'r staff allweddol a datblygu pecynnau gwaith i rannu dulliau gweithio. Mae datblygu modelau arweinyddiaeth gysylltiedig rhwng Amgueddfa Cymru a phartneriaid cymunedol hefyd yn bwysig, er mwyn pontio'r ffiniau rhwng sefydliadau a rhannu awdurdod trwy ddull mwy organig o weithio.

## 7.2. Mesur effaith

Rydym wrthi'n adolygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gesglir gennym. O ran ymgysylltu cymunedol, mae data meintiol yn dangos nifer y grwpiau ac unigolion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ac yn mynychu digwyddiadau. Defnyddiwyd Astudiaethau Achos i gasglu tystiolaeth anecdotaidd yn y gorffennol. Yn 2015-16, byddwn yn treialu dulliau ansoddol o ganfod effaith

gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd ein gwaith. Defnyddir dulliau fel 'graddio diemwnt', continwmm gwerthoedd a storïau digidol, er enghraifft, i fesur datblygiad personol, cynnydd mewn hyder a gwelliant mewn sgiliau cymdeithasol ac ieithyddol. Caiff effaith yn y tymor hwy ei mesur gyda phartneriaid cymunedol.

Mae canfod effaith gymdeithasol ymgysylltu cymunedol yn faes cymharol newydd ond mae'n tyfu fel maes ymchwil. Byddwn yn cydweithio ag Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, i ymchwilio a datblygu ffyrdd o ganfod hyn ac adrodd arno. Byddwn hefyd yn cydweithio â phartneriaid cymunedol a rhai o'r tu allan i'r sector amgueddfeydd i ymchwilio i fodlau sydd eisoes yn bod yn y trydydd sector ar gyfer canfod yr wybodaeth hon a'i datblygu. Un enghraifft ddiweddar yw Banc Gwerth Cymdeithasol a ddatblygwyd gan HACT (Housing Associations' Charitable Trust). Yna, bydd cyfuniad o fesurau meintiol ac ansoddol yn rhoi matrices wybodaeth i ni ar gyfer paratoi adroddiadau, ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru a pharatoi ceisiadau am gyllid.

Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwn o'r fframweithiau ymchwil a'r gwaith dadansoddi sy'n cael ei dreialu trwy Raglenni Arloesi Llywodraeth Cymru yn 2015-17 i gyfrannu at y ffordd y byddwn yn datblygu ac yn cymhwysu ein gwaith ymchwil i roi gwell tystiolaeth o'r gwahanol effeithiau a ddaw o gyfranogiad diwylliannol trwy ymgysylltu cymunedol. Hysbysebwyd swydd yn ddiweddar gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael gyda dulliau o fesur effaith gwaith yr Ardaloedd Arloesi.

Byddwn yn canfod ffyrdd o fuddsoddi mewn sgiliau a gallu ymchwil er mwyn gweld pa mor ymarferol yw sefydlu Amgueddfa Cymru'n Ganolfan Ragoriaeth mewn gwaith ymchwil i gyfranogiad diwylliannol.

### 7.3. Ariannol

Ar hyn o bryd, nid ydym yn ddigon cynaliadwy yn ariannol i ddatblygu a darparu ein rhaglenni. Yn aml, caiff gwaith ymgysylltu cymunedol ei weld fel rhywbeth sy'n drwm ar adnoddau. Mae hyn yn dipyn o her mewn cyfnod o doriadau ar wariant cyhoeddus.

Yn y tymor byr, rydym wedi ailgyfeirio peth o'n cyllid craidd tuag at ein gwaith ymgysylltu cymunedol. Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adrannau Cyllid a Datblygu i ganfod ffyrdd o ddenu gwahanol ffrydiau incwm, gan gynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill. Mae dargyfeirio ffrydiau incwm a meddwl mewn ffyrdd mwy entrepreneuriaidd yn allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ein gwaith yn y dyfodol.

Os ydym yn buddsoddi mewn ymgysylltu cymunedol, mae'n hanfodol ein bod yn glir ein meddwl beth yw'r goblygiadau, yn ariannol ac o ran adnoddau. Gall ymgysylltu cymunedol bwysu'n drwm ar amser ac adnoddau. Mae ein partneriaid cymunedol yn wynebu heriau ariannol hefyd. Rydym yn dechrau archwilio ffyrdd o gydweithio mewn ffordd greadigol i rannu adnoddau ar draws sectorau ac i ddenu nawdd ar y cyd. Mae cydweithio'n allweddol am y bydd sefydliadau'r maes wedi llwyddo i wneud hyn yn barod ac wedi sefydlu cefnogaeth gan ffynonellau penodol.

Bydd yr elfennau ariannol hyn yn cyfrannu at ein targedau blynyddol a'n gwaith cynllunio gweithredol er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a dargedir yn gynaliadwy ac yn berthnasol.

#### **7.4. Amrywiaeth ein cyrhaeddiad**

Er ein bod yn amgueddfa genedlaethol, nid oes gennym safleoedd mewn rhai rhannau o Gymru. Mae canfod ffyrdd o ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd targed ledled Cymru'n dipyn o her. Mae daearyddiaeth a maint ein gwasanaeth amgueddfeydd yn cyfrannu at y pwysau sydd ar ein hadnoddau cyfyngedig. Mae lefelau staff isel tu allan i Gaerdydd ac Abertawe yn ein rhwystro rhag datblygu rhaglenni mawr neu weithio mewn partneriaethau yn yr ardaloedd hynny.

Byddwn yn ddoeth wrth benderfynu lle a sut y byddwn yn gweithio, gan feithrin mentrau ymgysylltu cymunedol fel rhan o brojectau allweddol. Byddwn yn gwneud hyn yn raddol er mwyn cynnal yr effeithiau hir-dymor. Mae defnyddio rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol ein partneriaid yn un ffordd o wneud y mwyaf o'n cyrhaeddiad.

Byddwn yn canolbwyntio ar yr Ardaloedd Arloesi yng Nghymru er mwyn cydweithio â sefydliadau eraill ym meysydd treftadaeth a diwylliant i sicrhau bod yr hyn a gynigir yn cael ei wasgaru'n well ar draws Cymru. Yn Big Pit, byddwn yn cydweithio â'r gymuned a phartneriaid lleol yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon. Yn Amgueddfa Lechi Cymru, byddwn yn gweithio gyda Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Cadw a phartneriaid lleol eraill i gefnogi'r cais i fod yn Safle Treftadaeth y Byd adeg ei gyflwyno i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Hydref 2015, gan ddisgwyl ei gyflwyno i UNESCO yn 2018. Un o'r ffrydiau fydd canolbwyntio ar adfywio trwy dreftadaeth.

Mae ein gwaith gyda menter *Our Museum* wedi dangos bod cyfuniad o bartneriaid lleol a chenedlaethol yn bwysig er mwyn llunio a chyflawni ein gwaith ymgysylltu. Mae'r fenter wedi dangos hefyd bod meithrin perthnasau yn cymryd amser.

Mae denu'r rheini sydd wedi'u hynysu neu eu cau allan o'r broses ddysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol hefyd yn her.

### **7.5. Sgiliau staff**

Bydd rhaid buddsoddi amser ac arian yn datblygu sgiliau ac arbenigedd staff. Rhaid bod yr wybodaeth a'r arbenigedd hwn yn rhan graidd o wead y sefydliad yn hytrach nag yn nwylo rhai unigolion. Datblygu model hyblyg a chynaliadwy yw un o'r prif sialensiau. Er gwaethaf rhai llwyddiannau rydym ar ddechrau'r broses hon i bob pwrpas. Mae meddwl o'r newydd am ran gwaith ymchwil yn y corff yn ganolog i'r newid hwn. Bydd ymchwil yn sail i waith pob aelod o staff, o gynorthwywyr oriel i gyfarwyddwyr, a gall pawb gyfrannu at ddatblygiad gwaith ymchwil y sefydliad.

## 8. Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Cymunedol

### 1. Projectau gweddnewid: defnyddio projectau allweddol i dreialu dulliau newydd a gweddnewid ein gwasanaethau

Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2017-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20	Tystiolaeth
Amser staff  Gofynion cyllidebol Cyllid fel y nodir yng ngrant Cronfa Dreftadaeth y Loteri; cyllid mewnbyn partneriaid	Dulliau gweithio cyfranogol, a luniwyd fel rhan o broject ailddatblygu Sain Ffagan, wedi'u cynnwys fel ffordd o weithio ym mhob cynllun ailddatblygu mawr gan gynnwys Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a'r Gwyddorau Naturiol	Dulliau gweithio cyfranogol wedi'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni cyhoeddus gan gynnwys digwyddiadau ac arddangosfeydd  Rhaglen o ddeialog ac ymgynghori cyfranogol wedi'i sefydlu i gyfrannu at y gwaith rhaglennu a chynllunio gwaith	Fframweithiau a phecynnau cymorth wedi'u datblygu i'w defnyddio ar draws adrannau a sectorau, er mwyn cefnogi staff a phartneriaid a rhannu awdurdod	1.1. Mae cymunedau ac asiantaethau wrth wraidd ein prosesau penderfynu	<b>Meintiol</b> Cynnydd yn amrywiaeth y partneriaid  <b>Ansoddol</b> Cymheiriaid yn adolygu ein gwaith

### 2. Eiriolaeth a chyfathrebu: dathlu a gwerthfawrogi ein hamgueddfeydd fel lleoedd i gymunedau

Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20	Tystiolaeth
---------------------------------	--	------------------------------------	-------------------	---------------------	-------------

		<b>tymor canolig 2017-20</b>			
Amser staff  Gofynion cyllidebol: Cyllid ar gyfer negeseuon eiriolaeth a gwaith ymgysylltu	Datblygu negeseuon eiriol syml a chlr ar-lein ac yn ein hamgueddfeydd  Sefydlu hyrwyddwyr ymgysylltu cymunedol mewn adrannau, ac ymhlith yr ymddiriedolwyr  Penodi llysgenhadon cymunedol gyda phartneriaid allweddol  Rhannu'r hyn a ddysgir gyda'r sector amgueddfeydd yn ehangach trwy adolygiadau gan gymheiriaid, digwyddiadau a chynadleddau	Defnyddio Amgueddfa Cymru i hyrwyddo a chefnogi gwaith cymunedau ac asiantaethau  Rhannu'r hyn a ddysgir gyda'r sector amgueddfeydd yn rhyngwladol ac asiantaethau cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru trwy gynadleddau a chyhoeddiadau	Negeseuon clir ynghylch gwaith ymgysylltu yn rhan o'r Strategaeth Eiriolaeth  Llysgenhadon a hyrwyddwyr cymunedol yn cefnogi ac yn hyrwyddo ein gwaith yn fewnol ac yn allanol	2.1. Mae staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid yn deall ein gwaith ymgysylltu'n well  2.2. Mae rhwydweithiau cymunedol yn hyrwyddo ein gwaith ymgysylltu  2.3. Caiff ein gwaith ei gydnabod a'i ddathlu fel enghraifft o arfer orau	<b>Meintiol</b> Canran uwch o rwydweithiau cymunedol yn hyrwyddo ein gwaith  Canran uwch o ymweliadau meincnodi gan weithwyr proffesiynol o amgueddfeydd eraill  Nifer y staff sy'n gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau, adolygiadau gan gymheiriaid ac ati  <b>Ansoddol</b> Cymheiriaid yn adolygu ein gwaith

### 3. Amgueddfa ddigidol gydgysylltiedig: ymgysylltu â'n cymunedau ar-lein

Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2017-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20	Tystiolaeth
<p>Amser staff</p> <p>Gofynion cyllidebol: Cyllid Casgliad y Werin Cymru</p>	<p>Datblygu Casgliad y Werin Cymru ymhellach er mwyn rhannu deunyddiau a gynhyrchir gan ddefnyddwyr</p> <p>Datblygu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol dan arweiniad y gymuned</p> <p>Datblygu presenoldeb ar y we ar gyfer gwaith ymgysylltu cymunedol gan gynnwys pecynnau cymorth, cysylltiadau cymunedol, rhannu dysgu a datblygu ac ati</p>	<p>Treialu clystyrau oriel <i>Cymru</i> yn Sain Ffagan er mwyn archwilio cyfranogiad digidol yng nghyd-destun oriel</p> <p>Cynyddu potensial Casgliad y Werin Cymru i gefnogi cydgynyrchiadau gyda chymunedau yn seiliedig ar gasgliadau</p>	<p>Sefydlu presenoldeb ar y we ar gyfer ymgysylltu cymunedol</p> <p>Ymatebion defnyddwyr i gynnwys orielau yn llywio newidiadau'r dyfodol yn Sain Ffagan</p>	<p>3.1. Mae cymunedau'n cysylltu â chasgliadau'r amgueddfa ar-lein, yn eu rhannu ac yn eu datblygu</p>	<p><b>Meintiol</b></p> <p>Cynnydd mewn addysg a chyfranogiad digidol</p> <p>Cynyddu nifer y rhithymwelwyr a'r nifer sy'n dilyn ar Flickr, y blog a Twitter</p> <p>Canran y cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr caiff ei ddefnyddio a'i osod ar y wefan</p> <p><b>Ansoddol</b></p> <p>Natur yr adborth cadarnhaol</p>

#### 4. Partneriaethau strategol: anghenion, gwerthoedd a dyheadau cymunedol yn hybu cydweithio

Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20	Tystiolaeth
---------------------------------	--	------------------------------------	-------------------	---------------------	-------------



		<b>tymor canolig 2017-20</b>			
Amser staff  Gofynion cyllidebol: Cyllid i gefnogi partneriaid craidd	Gweithio fel rhan o'r Ardaloedd Arloesi yn Abertawe, Caerdydd, Tor-faen/Merthyr, Casnewydd, Wrecsam a Gwynedd i sefydlu modelau cynaliadwy ar gyfer gweithio ar draws sectorau  Adeiladu perthnasau a rhwydweithiau strategol effeithiol gyda phartneriaid allweddol	Modelau llwyddiannus yn llywio cynlluniau'r Amgueddfa e.e. ceisiadau am gyllid, project aildatblygu'r gwyddorau naturiol, agendâu ymchwil, arddangosfeydd a rhaglenni cyhoeddus  Adolygu cytundebau partneriaeth	Mwy o integreiddio gwasanaethau rhwng sefydliadau yn yr Ardalodd Arloesi	4.1. Mae pobl sydd mewn tlodi neu berygl yn elwa o wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n well  4.2. Mae partneriaid allweddol yn llunio adnoddau'r amgueddfa ac yn eu datblygu a'u defnyddio er mwyn diwallu eu hanghenion	<b>Meintiol</b> Nifer y partneriaid, y sefydliadau a'r cyfranogwyr sy'n cymryd rhan a'r ganran sy'n dal ati  <b>Ansoddol</b> Cyfeirio at yr Ardaloedd Arloesi fel model o arfer gorau Llundio adroddiad naratif yn crynhoi'r canlyniadau

### 5. Rhaglenni cyhoeddus: cryfhau sgiliau a gallu cymunedol a chynrychiolaeth ddiwylliannol

<b>Mewnbynnau (adnoddau a chostau)</b>	<b>Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17</b>	<b>Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2017- 20</b>	<b>Allbynnau 2015-20</b>	<b>Canlyniadau 2015-20</b>	<b>Tystiolaeth</b>
Amser staff	Sefydlu methodolegau ar	Datblygu a chynnal rhaglenni wedi'u	Rhaglenni cyhoeddus a	5.1. Mae cymunedau'n	<b>Ansoddol</b> Partneriaid yn

<p>Gofynion cyllidebol: Cyllid allanol ar gyfer gwaith ymgysylltu</p>	<p>gyfer darparu cynlluniau cymunedol a gynhrychir ar y cyd e.e. defnyddio techneg fflach amgueddfa, arddangosiadau wedi'u cydgyhyrchu ac ati</p> <p>Sicrhau bod y polisi casgliadau a'r strategaethau rheoli casgliadau yn mynd i'r afael â gwasanaethu cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac anghenion deuddiwylliannol Cymru</p> <p>Datblygu meini prawf ar gyfer digwyddiadau cymunedol gan gynnwys yr angen i: amrywio'r cynnwys a'r dulliau, cydweithio i ddatblygu a darparu</p>	<p>cydgyhyrchu ar draws adrannau ac amgueddfeydd gan ganolbwyntio ar gefnogi'r diwydiannau creadigol, datblygu sgiliau a gwella iechyd a lles e.e. datblygu rhaglenni dementia fel rhan o'n gwaith ymgysylltu</p> <p>Datblygu a threialu rhaglen sy'n gyfuniad o raglenni cyhoeddus am dâl ac am ddim er mwyn cynyddu ein darpariaeth graidd a chreu llwybrau i arwain plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tloedi i gymryd rhan</p>	<p>chasgliadau amrywiol a hygyrch</p> <p>Ffyrdd mwy hyblyg o ddatblygu cynnwys er mwyn ymateb yn well i leisiau a safbwyntiau cymunedau</p> <p>Sefydlu rhaglenni ymgysylltu dyfnach Amgueddfa Cymru yw'r prif le i bobl ifanc ddod i greu hanes ac ymgysylltu â chelf a gwyddoniaeth</p>	<p>teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli'n well a bod y casgliadau'n fwy amrywiol</p> <p>5.2. Caiff cymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog eu blaenoriaethu a'u cefnogi</p> <p>5.3. Mae rhannu sgiliau a gwirfoddoli yn y gymuned yn rhan hanfodol o brosesau a rhaglenni ein hamgueddfeydd</p> <p>5.4. Cefnogi diwydiannau creadigol Cymru a hybu iechyd a lles ein cymunedau yw sylfaen ein</p>	<p>casglu data am y nifer sy'n cwblhau cymwysterau achrededig (lle bo'n berthnasol) a/neu yn symud ymlaen i hyfforddiant pellach/cyflogaeth</p> <p><b>Ansoddol</b> Adroddiadau Astudiaethau Achos ar raglenni allweddol gan gynnwys CDCau ac CCCau</p> <p>Deialog dros amser gyda'r cyfranogwyr fel y dangosir gan nifer y negeseuon e-bost ac ymholiadau</p>
---	---	--	--	---	---

	<p>digwyddiadau deuddiwylliannol, ymgyrchoedd cenedlaethol a digwyddiadau lleol</p> <p>Treialu rhaglenni sy'n cefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ac iechyd a lles cymunedau e.e. datblygu projectau mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru a chynnwys plant a theluoedd incwm isel, plant Sipsiwn a Theithwyr a phobl hŷn</p> <p>Datblygu ein rhaglenni sgiliau gan ddefnyddio cryfderau'r gwahanol amgueddfeydd, gan gynnwys, er enghraifft, cyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned, lleoliadau gwaith, prentisiaethau mewn</p>			<p>rhaglenni ymgysylltu</p>	
--	--	--	--	-----------------------------	--

	<p>partneriaeth â Cholegau Addysg Bellach, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, sgiliau meddal a sgiliau magu plant gyda Dechrau'n Deg a phartneriaid eraill, sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg gydag ESOL a darparwyr Cymraeg i Oedolion</p> <p>Treialu rhaglen ymgysylltu dyfnach gydag ysgolion yn yr Ardaloedd Arloesi sy'n agos at ein hamgueddfeydd ledled Cymru a Llamau i fagu hyder, codi dyheadau ac ysgogi pobl ifanc</p>				
--	--	--	--	--	--

**6. Datblygu gwybodaeth: gwaith ymchwil yn sail i waith ymgysylltu cymunedol**

Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2017-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20	Tystiolaeth
<p>Amser staff</p> <p>Gofynion cyllidebol: Cyllid ar gyfer projectau ymchwil</p>	<p>Datblygu perthnasau a chyfleoedd ymchwil gyda phartneriaid Addysg Uwch fel Prifysgol Caerdydd a phartneriaid sy'n ymwneud ag unigolion a chymunedau am amser hirach</p> <p>Datblygu strategaethau gwerthuso a gwaith ymchwil hydredol newydd gyda Llywodraeth Cymru, asiantaethau cymunedol a'r sector amgueddfeydd, yng Nghymru a thu hwnt er mwyn mesur yr effaith gymdeithasol</p> <p>Sefydlu fframwaith ymchwil a dadansoddiad o'r</p>	<p>Cynnwys fframweithiau gwerthuso ar gyfer rhaglenni cyhoeddus sy'n golygu y gellir sicrhau cysondeb wrth gasglu a dadansoddi data er mwyn cyfrannu at raglenni</p> <p>Cyflwyno ceisiadau ymchwil a chymryd rhan mewn rhaglenni ymchwil gyda Phrifysgol Caerdydd</p> <p>Pennu materion ymchwil penodol i aelodau'r staff fel projectau ymchwil unigol e.e. tlodi plant neu les</p>	<p>Adroddiad ymchwil o'r Ardaloedd Arloesi</p> <p>Profi'r fframweithiau ansoddol fel rhan o'r metrics/Dangosyddion Perfformiad Allweddol blynyddol</p> <p>Cyhoeddi gwaith ymchwil yn seiliedig ar ein gwaith</p>	<p>6.1. Mae canlyniadau ymchwil yn casglu effeithiau personol, economaidd a chymdeithasol ein gwaith yn unol â'n Strategaeth Ymchwil Ymwelwyr</p> <p>6.2. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol ansoddol yn rhoi gwell disgrifiad o'n gwaith a gwell adroddiadau amdano i Lywodraeth Cymru</p>	<p><b>Ansoddol</b> Nifer y cynlluniau ymchwil</p> <p><b>Ansoddol</b> Cynnyrch gwaith ymchwil o safon uchel yn cael ei rannu ar draws y sector cyfan</p>

	gwaith fel rhan o'r Rhaglen Arloesi			6.3. Mae'r staff yn defnyddio methodolegau amrywiol wrth ymchwilio a gwerthuso, gan gynnwys dysgu trwy weithredu	
--	-------------------------------------	--	--	--	--

7. Perfformiad ariannol a llywodraethu: adeiladu gwasanaeth cynaliadwy					
Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2017-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20	Tystiolaeth
Amser staff	Datblygu a threalu dull cyllido cyfunol e.e. ceisiadau i'r Gronfa Loteri Fawr i gefnogi gwaith gwirfoddol cymunedol a rhannu sgiliau  Parhau i ddatblygu modelau ar gyfer Fforymau leuenctid a Fforymau Cyfranogi ar draws safleoedd a threalu dulliau a ddefnyddir gan	Rhaglennu cynlluniau cyllido cynaliadwy trwy bartneriaethau a chydgyllido  Defnyddio Fforymau Cyfranogi fel ffordd o gynnwys ymddiriedolwyr ac adrannau'r amgueddfa gyfan  Cynnwys methodolegau cludadwy a ddatblygwyd yn rhan o fenter <i>Our</i>	Y ganran o'r gwaith ymgysylltu cymunedol a gefnogir gan nawdd a chyllid allanol	7.1. Mae ceisiadau am gyllid ar y cyd yn gwneud y mwyaf o botensial adnoddau ar draws sectorau  7.2. Mae gan gymunedau lais yn y ffordd y llywodraethir Amgueddfa Cymru	Canran y rhaglenni a gyflenwir trwy nawdd a chodi arian  Adroddiadau i arianwyr a noddwyr

	<p>bartneriaid e.e. Sgyrsiau Mawr er mwyn trafod anghenion cymunedau a gwranddo arnynt, a chynnwys pobl mewn gweithgareddau craidd</p> <p>Treialu Memoranda Dealltwriaeth/ Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chytundebau Partneriaeth er mwyn rhannu adnoddau, cyd-greu gwerth a sgiliau, a chynnwys fframweithiau ar gyfer cydweithio â chymunedau</p>	<p><i>Museum</i> a gwaith ailddatblygu Sain Ffagan</p>			
--	---	--	--	--	--

1. Ein pobl				
Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr, 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig, 2018-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20
<p>Amser staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p>	<p>Adolygu cynnwys hyfforddiant craidd a gorfodol i staff yn rhan o'r Strategaeth Addysg a</p>	<p>Datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr i wella'r</p>	<p>Y staff i gyd yn cael hyfforddiant ymgysylltu ac amrywiaeth</p>	<p>Mae'r staff yn cefnogi gwerthoedd ein gwaith ymgysylltu ac mae'r sgiliau angenrheidiol</p>

<p>Cyllid ar gyfer hyfforddiant a ddarperir gan bartneriaid</p>	<p>Datblygu a ddatblygir gan yr adran Adnoddau Dynol</p> <p>Cefnogi staff mewn ardaloedd penodol o waith yn unol â gwerthoedd y sefydliad e.e. cyfeillion Dementia</p> <p>Cydnabod bylchau yn sgiliau'r staff a threialu modiwlau hyfforddi staff yn seiliedig ar gymhelliant staff a'u rhan mewn projectau byw e.e. cynlluniau cyfeillio, cynlluniau gwirfoddoli a chysgodi gyda Phartneriaid Cymunedol neu adrannau eraill yr Amgueddfa, prentisiaethau ar gyfer staff ac ati</p> <p>Caiff gwaith projectau ymgysylltu cymunedol ei fesur yn Adolygiadau o Berfformiad a Datblygiad unigol staff</p>	<p>ddealltwriaeth o ymgysylltu cymunedol a datblygu'r sgiliau angenrheidiol</p> <p>Darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad cyfan</p> <p>Cyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli i'r holl staff naill ai yn y sefydliad a/neu mewn sefydliadau sy'n bartneriaid</p>	<p>Mae gan y staff ddealltwriaeth sylfaenol o waith ymgysylltu cymunedol yr Amgueddfa a'r sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith hwn</p> <p>Y staff yn ymwybodol o risg ond ddim yn amharod i gymryd risg wrth wneud gwaith ymgysylltu cymunedol</p>	<p>ganddynt i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau</p>
---	--	--	--	--

## 2. Ein diwylliant



Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr, 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig, 2018- 20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20
<p>Amser staff</p> <p>Gofynion cyllidebol: Cyllid ar gyfer addysg a datblygu</p>	<p>Treialu ffyrdd o drefnu'r fframweithiau Ymgysylltu Cymunedol yn rhan o broject aildatblygu Sain Ffagan</p> <p>Treialu ffyrdd o amrywio natur y staff sy'n gwneud gwaith ymgysylltu cymunedol gydag ymddiriedolwyr yn cymryd rhan mewn projectau allweddol</p> <p>Datblygu strwythurau i arwain newid o'r gwaelod i fyny</p> <p>Datblygu pecynnau cymorth i helpu'r staff sy'n gwneud gwaith ymgysylltu cymunedol</p> <p>Datblygu diwylliant gwaith project sy'n hyblyg er mwyn</p>	<p>Strwythurau a fframweithiau clir yn cefnogi gwaith ymgysylltu cymunedol</p> <p>Sefydlu newid yn y diwylliant o ran ymgysylltu cymunedol ar bob lefel gan gynnwys yr Uwch Dîm Rheoli a'r Ymddiriedolwyr yn y gwaith ymarferol ac ymarferwyr o blith y staff yn y gwaith datblygu polisïau</p>	<p>Sefydlu dull mwy strategol o weithio'n fewnol ac yn allanol</p> <p>Cynllunio gwaith a threfnu adnoddau ar ei gyfer ar draws adrannau ac fel rhan o brojectau mawr</p> <p>Adolygu gwaith yn onest fel rhan o'r system Monitro Perfformiad a myfyrio arno fel tîm</p>	<p>2.1. Mae modelau arweinyddiaeth gysylltiol yn cefnogi gwaith ymgysylltu cymunedol</p> <p>2.2. Gwneir gwaith ymgysylltu cymunedol mewn ffordd strategol ar draws Amgueddfa Cymru, mae'n rhan hanfodol o'r gwaith ac mae pob aelod o staff yn gyfrifol amdano</p> <p>2.3. Mae staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid yn trafod ein gwaith, yn ei rannu, yn myfyrio arno ac yn ei ddathlu</p>

	cefnogi gweithio'n rhyngddisgyblaethol ac alinio blaenoriaethau			
--	---	--	--	--

<b>3. Ein casgliadau</b>				
<b>Mewnbynnau (adnoddau a chostau)</b>	<b>Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr, 2015-17</b>	<b>Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig, 2018-20</b>	<b>Allbynnau 2015-20</b>	<b>Canlyniadau 2015-20</b>
<p>Amser staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p> <p>Cyllid ar gyfer pecynnau fflach amgueddfa cludadwy</p>	<p>Gwaith ymgysylltu cymunedol yn llywio polisïau a strategaethau casgliadau ac ymchwil</p> <p>Arddangosiadau a gydgyhyrchrir yn sicrhau gwell amrywiaeth yn y casgliadau a'r dehongliadau</p> <p>Prosesau casglu a rheoli risg yn sicrhau mynediad at gasgliadau mewn stôr, gyda chasgliadau 'trin a thrafod' arbennig a</p>	<p>Sefydlu systemau mynediad at gasgliadau sy'n cefnogi gwaith mewngymorth ac allgymorth ynghylch y casgliadau</p> <p>Datblygu methodolegau ar gyfer cydguradu arddangosiadau a rhaglenni er mwyn datblygu'r casgliadau a sicrhau amrywiaeth</p> <p>Sicrhau y caiff staff a phartneriaid hyfforddiant trin a</p>	<p>Strategaethau casgliadau a gwaith ymchwil sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Cymru a'r angen am fynediad hawdd at y casgliadau at ddibenion ymgysylltu cymunedol</p>	<p>3.1. Mae gwaith ymgysylltu cymunedol a'i ganlyniadau'n rhan hanfodol o'n polisïau, ein strategaethau a'n gweithgareddau casglu a gwaith ymchwil</p> <p>3.2. Ceir gwell mynediad at gasgliadau sydd mewn stôr at ddibenion ymgysylltu cymunedol</p> <p>3.3. Mae pecynnau fflach amgueddfa cludadwy yn hybu gwaith ymgysylltu cymunedol pob amgueddfa</p>

	digon o becynnau fflach amgueddfa cludadwy ym mhob safle	thrafod casgliadau digonol		
--	--	----------------------------	--	--

4. Ein systemau				
Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr, 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig, 2018-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20
Amser staff	<p>Datblygu fframwaith ymgysylltu cymunedol ar draws y sefydliad gyda thargedau, prosesau adrodd a phrosesau penderfynu clir</p> <p>Datblygu a threialu templedau cyson, cydlynus a hyblyg sy'n pennu ffurf gyffredin o fesur effaith y gwaith</p> <p>Datblygu dulliau gwaith sy'n seiliedig ar brojectau a chyfleoedd i fyfrio ar draws adrannau ac amgueddfeydd, gan gynnwys partneriaid</p>	<p>Datblygu a gweithredu dulliau o fonitro safonau ar draws Amgueddfa Cymru</p> <p>Sefydlu rhwydwaith o staff cefnogol y gellid ymddiried ynddynt ar draws Amgueddfa Cymru a'n partneriaid</p>	<p>Dealltwriaeth glir ar draws yr Amgueddfa o ystyr ymgysylltu cymunedol o safon</p> <p>Systemau clir ar gyfer datblygu project, ei weithredu, adrodd a myfrio arno ym mhob agwedd ar ein gwaith ymgysylltu cymunedol</p> <p>Sefydlu a chynnal rhwydweithiau priodol yr ymddiriedir ynddynt ar draws adrannau,</p>	<p>4.1. Rydym yn monitro ac yn meincnodi safonau, prosesau a pherfformiad er mwyn sicrhau cysondeb a safon uchel y gwasanaeth</p> <p>4.2. Rydym yn darparu systemau hyblyg ar draws sefydliadau er mwyn gwneud y mwyaf o'n hadnoddau wrth gynllunio amser staff a dyraniad cyllidebau</p> <p>4.3. Mae systemau mynediad at gasgliadau wedi'u sefydlu er mwyn cefnogi gwaith allgymorth a mewngymorth sy'n ymwneud â'r casgliadau</p>

	<p>Adolygu strwythurau a dulliau recriwtio'r fforymau ieuenctid</p> <p>Rhannu methodolegau y gellid eu trosglwyddo â hyrwyddwyr ar draws Amgueddfa Cymru ynghylch gweithio â phartneriaid e.e. model <i>Our Museum</i></p> <p>Hysbysebu swyddi trwy ein partneriaid a chydweithio â'n partneriaid ar y broses benodi</p>		amgueddfeydd a phartneriaid	
--	--	--	-----------------------------	--

5. Ein seilwaith				
Mewnbynnau (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr, 2015-17	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig, 2018-20	Allbynnau 2015-20	Canlyniadau 2015-20
<p>Amser staff</p> <p>Gofynion cyllidebol: Cyllid ar gyfer datblygu gofodau</p>	<p>Sefydlu egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol ac adlewyrchu hynny mewn projectau cynllunio mawr ac ailddatblygu</p>	<p>Datblygu gofodau a lleoliadau amgueddfeydd yn unol ag egwyddorion allweddol canolfannau cymunedol</p>	<p>Cymunedau'n defnyddio gofodau a lleoliadau amgueddfeydd mewn ffyrdd creadigol ac amlweddol</p>	<p>5.1. Mae gofodau a lleoliadau amgueddfa newydd yn adlewyrchu'r egwyddorion allweddol ar gyfer diwallu anghenion cymunedau amrywiol</p>

	<p>Sefydlu a gwella ymhellach weithdrefnau cydweithio â chymunedau gan gynnwys rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p>	<p>Ymsefydlu gweithdrefnau ar gyfer cydweithio â chymunedau</p> <p>Cynnal a diweddarau asesiadau risg</p>	<p>Gwneir gwaith ymgysylltu cymunedol mewn ffordd ddiogel</p>	<p>5.2. Mae gweithdrefnau iechyd a diogelwch a rheoli risg yn cefnogi gwaith ymgysylltu cymunedol</p>
--	--	---	---	---

## Atodiad 1: Menter *Our Museum*

### 1.1. Y cefndir

Ers mis Ebrill 2012, rydym wedi bod yn rhan o fenter *Our Museum*, a ariennir gan Sefydliad Paul Hamlyn. Nodau'r fenter yw:

- Cefnogi a datblygu amgueddfeydd ac orielau i roi anghenion, gwerthoedd a dyheadau cymuned a chydweithio wrth wraidd eu gwaith
- Cynnwys cymunedau ac unigolion mewn prosesau penderfynu craidd ac yn y gwaith o weithredu'r penderfyniadau a wneir
- Sicrhau bod amgueddfeydd ac orielau'n chwarae rhan effeithiol wrth ddatblygu sgiliau cymunedol, trwy wirfoddoli, hyfforddi, prentisiaethau ac ati
- Rhannu modelau enghreifftiol newydd gyda'r sector amgueddfeydd ehangach.

Penllanw proses ymgynghori ofalus a gychwynwyd yn 2008 yw'r fenter a wnaed gyda'r cwmni ymchwil i'r farchnad, LUCID, a chyfnod ymchwil o dan arweiniad Dr Bernadette Lynch. Daeth ei hadroddiad hi (mae crynodeb ohono yn y cyhoeddiad *Whose cake is it anyway?*) i'r casgliad nad oedd y cyllid a fuddsoddiwyd dros y blynyddoedd diwethaf ym maes ymgysylltu a chyfranogiad cyhoeddus yn amgueddfeydd ac orielau'r Deyrnas Unedig wedi llwyddo i symud y gwaith o'r ymylon i fod wrth wraidd llawer o'r sefydliadau hyn.

Mae *Our Museum* yn cynnig cefnogaeth i sefydliadau reoli newid strwythurol sylweddol fel bod gwaith cyfranogi yn dod yn waith craidd, yn rhan hanfodol o'r sefydliad, yn gynaliadwy a bod llai o berygl iddo gael ei wthio i'r ymylon pan fydd ffrydiau ariannu penodol yn crebachu. Ymhlith yr amgueddfeydd eraill sy'n rhan o'r fenter hon mae: Amgueddfeydd, Oriolau ac Archifdai Bryste; Amgueddfeydd

Glasgow; Amgueddfa Hackney; The Lightbox; Amgueddfa Werin Ryedale; ac Amgueddfeydd ac Archifdai Tyne and Wear.

Fel rhan o fenter *Our Museum* yn Amgueddfa Cymru, rydym wedi canolbwyntio'r newid diwylliannol ar ddatblygu sgiliau ac arferion gweithio gyda gwirfoddolwyr yn Sain Ffagan. Y nod yw adeiladu cymuned o wirfoddolwyr sy'n seiliedig ar anghenion y gwirfoddolwr. Byddai hyn yn ehangu'r sylfaen gwirfoddolwyr ac yn sicrhau cyfleoedd i wirfoddolwyr ym mhob agwedd ar ein gwaith. Caiff ein penderfyniadau eu llywio gan ein Tîm Ymgysylltu sy'n cynnwys grŵp o ddeg o bartneriaid cymunedol o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, staff amgueddfeydd ac ymddiriedolwyr.

## 1.2. Pa effaith mae'n ei chael?

Megis dechrau ydym ni, ond mae'n edrych yn debyg bod y dull hwn o gydweithio yn cael effaith ar ein prosesau penderfynu craidd. Mae hyn yn helpu i roi anghenion a dyheadau cymunedol wrth wraidd ein gwaith a sicrhau ein bod yn chwarae rhan effeithiol wrth ddatblygu manteision i gymunedau a sgwrsiau ar draws sectorau perthnasol yng Nghymru.

Mae ein dulliau gweithio yn dechrau chwalu rhwystrau at gyfranogi a mynd i'r afael â'r gwrthwynebiad i newid a geir mewn rhai rhannau o'r corff. Yn ystod y broses hon, bu heriau a manteision i'r amgueddfa a phartneriaid cymunedol fel ei gilydd.

Mae'r dull hwn o weithio, yn ei hanfod, yn fwy democrataidd gan ei fod yn parchu'r rhan y mae'r boblogaeth gyfan yn ei chwarae mewn datblygiad diwylliannol. Meddai un partner "rydym bob amser yn cael ein trin â pharch". Mae pobl sy'n ymweld ag amgueddfeydd yn perthyn i ddiwylliannau a chymunedau amrywiol; maent yn meddu ar ddiwylliant ac yn cyfrannu ato yn hytrach na dim ond ei dderbyn yn oddefol. Felly, mae ganddynt hawl i gyfrannu at gofnodi, trafod a dehongli'r diwylliant hwnnw.

### 1.3 Y tîm ymgysylltu

**Partneriaid Cymunedol:** Jan Balsdon/Sian David (The Wallich), Greg Rees (DrugAid Cymru), Fiona Liddell (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), Annie Duddridge/Tom Dicomidis (Diverse Cymru), Arwen Thomas (Quest Support), Kat York (New Link Wales), Gaynor Williams (Canolfan Byd Gwaith), Nathan Williams (Voluntary Community Service) a Sybil Williams (Pedal Power).

**Staff:** Stephanie Burge (Cydlynnydd *Our Museum*), Elaine Cabuts (Ysgrifennydd yr Amgueddfa), Ffion Davies (Cydlynnydd Gwirfoddolwyr), Janice Lane (Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol), Bethan Lewis (Pennaeth Sain Ffagan), Owain Rhys (Rheolwr Ymgysylltu a Chyfranogiad Cymunedol), Beth Thomas (Ceidwad Hanes ac Archaeoleg) a Nia Williams (Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli).

**Ymddiriedolwyr sy'n cefnogi'r fenter:** Carole-Anne Davies, Miriam Griffiths, Glenda Jones a Keshav Singhal.



## **Atodiad 2: Rhestr o'r staff a'r partneriaid cymunedol a gymerodd ran mewn gweithdai ar 19 Ionawr a 2 Mawrth 2015**

Hwyluswyd gan Gerri Moriarty, Cyfaill Beirniadol *Our Museum*

### **Staff:**

Stephanie R. Burge

Elaine Cabuts

Michael J. Corbridge

Katrina Deering

Sharon Ford

Sioned Hughes

Manon Wyn Humphreys

Sara Huws

Dafydd James

Huw Jones

Elfyn Jones-Roberts

Steph Mastoris

Katie Mortimer-Jones

Dai Price

Owain Rhys

Nicholas Thornton

Nia Williams

### **Partneriaid Cymunedol:**

Dave Horton, ACE

Mari Lowe, Oasis

Sybil Williams, Pedal Power

### **Cynhaliwyd y cyfarfodydd/gweithdai a ganlyn wrth ddatblygu'r strategaeth hon:**

Adran y Gwyddorau Naturiol, 17 Medi 2014

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, 22 Medi 2014

Amgueddfa Lechi Cymru, 26 Medi 2014

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, 29 Medi 2014

Amgueddfa Wlân Cymru, 29 Medi 2014

Yr Adran Gelf, 30 Hydref 2014

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, 3 Hydref 2014

Partneriaid *Our Museum*, 16 Hydref 2014

Tîm Rheoli Hanes ac Archaeoleg, 20 Hydref 2014

Cyfarfod Safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, 19 Tachwedd 2014

Cyfarfod Tîm Big Pit, 20 Tachwedd 2014

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd diweddarau a thrafodaethau gyda Rheolwyr Addysg, Cyfranogiad a Dehongli.

Rhannwyd drafftiau o'r strategaeth â'n partneriaid erbyn hyn hefyd.

## Atodiad 3: Mentrau Llywodraeth Cymru

### 3.1. Strategaeth Tlodi Plant, 2011

Nod y Strategaeth Tlodi Plant yw dileu tlodi yng Nghymru erbyn 2020 ac mae ganddi dri amcan strategol:

- lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith
- cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, fel eu bod yn gallu sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda
- lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd trwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Daeth ymgynghoriad ar strategaeth ddiwygiedig i ben ym mis Chwefror 2015. Mae'r strategaeth ddiwygiedig hon yn pwysleisio ac yn cryfhau'r cysylltiadau â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi - y Cynllun Gweithredu yw'r mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau'r amcanion a bennwyd ym maes trechu tlodi plant. Mae hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt, sef: tlodi bwyd; tlodi mewn gwaith; gofal plant; camau i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles; a thai ac adfywio.

Mae saith egwyddor yn sylfaen i'r strategaeth: Bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysg
- yn mwynhau'r iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsploetiaeth
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- ddim dan anfantais oherwydd tlodi.

### 3.2. Cymunedau yn Gyntaf

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi mewn cymunedau. Mae'r rhaglen yn rhoi arian i Gyrrff Cyflawni Arweiniol o'r enw Cystyrau Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd awdurdodau lleol er mwyn culhau'r bylchau sydd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a'r rhai mwyaf cefnog o ran yr economi, addysg/sgiliau ac iechyd.

Mae gan y rhaglen dri amcan strategol i helpu i gyflawni'r amcanion hyn:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Dysgu
- Cymunedau Iachach

Mae'r blaenoriaethau addysg yn cynnwys annog rhagor o aelodau'r gymuned (yn enwedig o grwpiau y cyfrifir eu bod yn anodd cyrraedd atynt) i ddilyn hyfforddiant sgiliau sylfaenol, TGCh a sgiliau allweddol; gwella sgiliau magu plant; cefnogi ymgysylltiad y teulu mewn addysg; cefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial yn yr ysgol; gweithio gyda chyfleusterau addysgiadol i gefnogi gweithgareddau cwricwlwm amgen ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; cefnogi pobl leol i gael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant; dysgu trwy'r celfyddydau a diwylliant ac annog pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol (e.e. lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol). Mae Amgueddfa Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi'r ddarpariaeth mewn llawer o'r meysydd hyn.

### 3.3. Ardaloedd Arloesi, 2014

Cafodd Ardaloedd Arloesi eu creu mewn ymateb i argymhellion gan y Farwnes Kay Andrews yn ei hadroddiad, *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*. Maent

mewn chwe ardal ledled Cymru, sef: Gwynedd, Torfaen, Abertawe, Casnewydd, Caerdydd a Wrecsam. Cyfuniadau ydynt o nifer o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Y bwriad yw gwella'r gweithgareddau diwylliannol a ddarperir mewn ardaloedd amddifadus, gan helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau i ymgysylltu dros fwy o amser â diwylliant a threftadaeth. Arweinir yr Ardaloedd Arloesi gan yr awdurdod lleol perthnasol neu sefydliad arweiniol arall a phartner cenedlaethol o fyd diwylliant (e.e. Amgueddfa Cymru). Bydd y prif bwyslais ar ddull gweithredu hyblyg, cymunedol, a fydd yn rhoi cyfle i gymunedau a chyryff diwylliannol i ddatblygu'r dulliau gweithredu a'r gweithgareddau sy'n fwyaf perthnasol i'w cymunedau nhw'u hunain.

#### **3.4. Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2014**

Cyflwynwyd y Bil ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwella llesiant Cymru.

Ei nod yw gwella llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu ymdrechu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Prif ddibenion y Bil yw:

- pennu fframwaith y gall awdurdodau cyhoeddus neilltuoel yng Nghymru ei ddefnyddio i geisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (egwyddor datblygu cynaliadwy)
- gosod nodau llesiant y mae'r awdurdodau hynny i fod i geisio eu cyrraedd er mwyn gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol
- nodi sut y mae'r awdurdodau hynny i fod i ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant
- rhoi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sylfaen statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion cyfredol ynghylch cynllunio cymunedol integredig

- sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru, i siarad dros genedlaethau'r dyfodol a chynghori a chefnogi awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

#### Atodiad 4: Rhestr o'r partneriaid allweddol strategol cyfredol

Enw'r partner	Natur y gwaith gyda'r partner	Blaenoriaeth y Weledigaeth	Statws y berthynas
ACE	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol a Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau Gweddnewid, Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Achub y Plant	Addysg Anffurfiol, Rhaglenni Cyhoeddus	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus	Partner newydd
Barnardo's	Ymgysylltu Cymunedol a Rhaglenni Cyhoeddus	Partneriaethau Strategol	Partner newydd
Canolfan Byd Gwaith	Cynlluniau, Strategaethau a Rhaglenni Gwirfoddoli. Rhaglenni rhannu sgiliau.	Projectau sy'n Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Canolfan Cymraeg i Oedolion (Caerdydd a'r Fro)	Cynnwys Oriolau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol, yr Iaith Gymraeg	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Canolfan Gymunedol Affricanaidd Cymru	Cynllun aildatblygu Sain Ffagan, Ymgysylltu Cymunedol a Rhaglenni Cyhoeddus	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol, addysg a datblygu ar gyfer staff	Projectau sy'n Gweddnewid, Eiriolaeth a Chyfathrebu	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Coleg Caerdydd a'r Fro	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol a Rhaglenni Cyhoeddus	Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus, Perfformiad Ariannol a Llywodraethu	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Rhaglenni Ymgysylltu Cymunedol	Amgueddfa Ddigidol	Partner newydd

			Gydgysylltiedig, Partneriaethau Strategol	
Coleg Sir Gâr	Cystadlaethau Addysg Bellach a sgiliau yn Amgueddfa Wlân Cymru a Sain Ffagan	Rhaglenni Cyhoeddus		Projectau ar y cyd
Cyngor Cymuned Celfyddydol Teifi Ganol	Partneriaeth digwyddiadau crefft yn Amgueddfa Wlân Cymru	Partneriaethau Strategol		Projectau ar y cyd
Cyngor Ffoaduriaid Cymru (Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam)	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus		Projectau ar y cyd
Cynghorau Sir e.e. Caerdydd, Gwynedd, Torfaen	Cynllun ailddatblygu Sain Ffagan, cynllun ailddatblygu Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Rhaglenni Ymgysylltu Cymunedol a Rhaglenni Cyhoeddus, statws Safle Treftadaeth y Byd, gwell ffyrdd o rannu hyfforddiant ac adnoddau	Projectau Gweddnewid, Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol		Projectau ar y cyd
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol	Rhaglenni Cyhoeddus		Projectau ar y cyd
Cymdeithas Integreiddio Somaliaid	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Rhaglenni Cyhoeddus		Projectau ar y cyd
Cymunedau yn Gyntaf, Glan-yr-afon	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Partneriaethau Strategol		Projectau ar y cyd
Deafblind Cymru	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Amgueddfa Ddigidol Gydgysylltiedig, Rhaglenni Cyhoeddus		Partner newydd
Dechrau'n Deg	Rhaglenni i blant dan 5 oed	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol		Angen sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth



Diverse Cymru	Cynlluniau, Strategaethau a Rhaglenni Gwirfoddoli. Cynlluniau addysg a datblygu staff	Projectau Gweddnewid, Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol, Perfformiad Ariannol a Llywodraethu	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Drugaid	Cynlluniau, Strategaethau a Rhaglenni Gwirfoddoli	Projectau Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Fforwm Ieuenctid Caerffili	Cynllun aiddatblygu Sain Ffagan	Amgueddfa Ddigidol Gydgysylltiedig, Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Gateway (MENCAP Cymru)	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
GISDA	Cynlluniau, Strategaethau a Rhaglenni Gwirfoddoli	Partneriaethau Strategol	Partner newydd
Hafal	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol	Partneriaethau Strategol	Projectau ar y cyd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Nifer o fentrau strategol	Amgueddfa Ddigidol Gydgysylltiedig, Partneriaethau Strategol, Perfformiad Ariannol a Llywodraethu	Partner Cenedlaethol
Menter Iaith e.e. Caerdydd, Gorllewin Sir Gâr a CERED	Yr Iaith Gymraeg	Eiriolaeth a Chyfathrebu	Projectau ar y cyd
MEWN Cymru (Rhwydwaith Menywod o Grwpiau Ethnig Lleiafrifol)	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
NewLink Cymru	Cynlluniau, Strategaethau a Rhaglenni Gwirfoddoli. Cynlluniau addysg a datblygu staff	Projectau Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE)	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus	Partner Cenedlaethol
Oasis	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth, Addysg a datblygu staff	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Partneriaid lleol Cymunedau yn Gyntaf ac Ardaloedd Arloesi	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol, Addysg i'r Teulu a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf	Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus, Perfformiad Ariannol a Llywodraethu	Partner newydd
Pedal Power	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol, addysg a datblygu staff	Projectau Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Pride Cymru	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth, LHDTh	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Prifysgol Caerdydd	Ymchwil ac Effaith Gymdeithasol, Rhaglenni Ymgysylltu Cymunedol	Partneriaethau Strategol, Datblygu Gwybodaeth	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Cyrsiau Cymraeg	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Prifysgol De Cymru - Campws Caerllion Ysgol y Dyniaethau a Dysgu Gydol Oes	Rhaglenni Ymgysylltu Cyhoeddus	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Prifysgol y Drydedd Oes	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	Rhaglenni Addysg Bellach/Addysg Uwch yn Amgueddfa Wlân Cymru	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Pwyllgor Puja Cymru	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth, Addysg a datblygu staff	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd

Quest	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol, Addysg a datblygu staff	Projectau Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Rhaglen Wirfoddoli'r Rhai sydd wedi Ymddeol a Phobl Hŷn	Rhaglenni cyhoeddus Amgueddfa Wlân Cymru	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
The Parade ESOL	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Addysg Anffurfiol, Addysg a datblygu staff	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
The Romani Cultural & Arts Company	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
The Wallich	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol, Rhaglenni Cyhoeddus, Cynlluniau addysg a datblygu staff	Projectau Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Twf	Yr Iaith Gymraeg, Rhaglenni i blant cyn ysgol a'u teuluoedd	Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Urdd Gobaith Cymru	Yr Iaith Gymraeg a rhaglenni ieuencid	Eiriolaeth a Chyfathrebu, Partneriaethau Strategol	Angen Cytundeb Lefel Gwasanaeth
VCS	Rhaglen Wirfoddoli, Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol	Projectau Gweddnewid, Partneriaethau Strategol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Y Brifysgol Agored	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus	Rhaglenni Cyhoeddus	Projectau ar y cyd
Ymddiriedolaeth Aneurin Bevan	Ymgysylltu Cymunedol a Rhaglenni Cyhoeddus	Partneriaethau Strategol, Datblygu gwybodaeth	Partner newydd

Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro	Cynnwys Orielau, Rhaglennu Cyhoeddus, Amrywiaeth	Partneriaethau Strategol, Rhaglenni Cyhoeddus	Partner newydd
--	---	--	-------------------

## Atodiad 5: Ymchwil i effeithiau cymdeithasol cyfranogiad diwylliannol

Mae mwy a mwy o dystiolaeth yn dangos bod amgueddfeydd yn gallu hybu newid cymdeithasol a chynhwysiant (Sandell, 1998) a bod cyfranogiad yn gweithio. Serch hynny, pur anaml y caiff diwylliant ei ystyried yn elfen allweddol mewn cynlluniau i drechu tlodi a gellid camddeall ei rôl.<sup>13</sup>

Mae'r Cultural Learning Alliance wedi dangos effaith addysg ddiwylliannol ar fywydau plant a phobl ifanc ar sail adolygiad o'r holl ddata Saesneg sylweddol sydd ar gael, gyda chyllid gan Sefydliad Paul Hamlyn. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys y casgliadau canlynol:

- mae dysgu trwy'r celfyddydau a diwylliant yn gwella cyrhaeddiad ym mhob pwnc
- mae cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau strwythuredig yn cynyddu gallu gwybyddol
- mae disgyblion o deuluoedd incwm isel sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn yr ysgol dair gwaith yn fwy tebygol o raddio
- mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau yn yr ysgol ddwywaith yn fwy tebygol o wirfoddoli ac 20% yn fwy tebygol o bleidleisio pan fyddant yn oedolion ifanc.

Mae'r adroddiad *Mynd i'r afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill* a gyhoeddwyd gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn dweud y gall ysgolion wella cyflawniad dysgwyr sydd o dan anfantais trwy godi dyheadau, dysgu y tu allan i oriau ysgol, datblygu ffocws ar y gymuned, a thrwy gydweithio â'r gymuned, rhieni ac asiantaethau eraill. Roedd yr adroddiad yn nodi hefyd bod

---

<sup>13</sup> M. Daly, *Combating child poverty through measures promoting the socio-cultural participation of clients of the Public Centres for Social Welfare: Synthesis report* (Medi 2012), t5. Noda Daly bod 'socio-cultural participation policies are the least developed domain of policy addressing child poverty' ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

ysgolion effeithiol mewn ardaloedd difreintiedig yn rhoi cryn bwyslais ar ddarpariaeth allgyrsiol a thu allan i oriau ysgol, gan gynnwys cyfoethogi diwylliannol. Adroddiad arall a ddaeth i'r casgliad hwn oedd adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree, *Combating child poverty in Wales: are effective education strategies in place?* lle'r oedd y dystiolaeth yn dangos na all ysgolion, ar eu pen eu hunain, oresgyn y cysylltiadau rhwng tlodi plant a chyflawniad addysgol isel.

Yn ogystal, dangoswyd gwerth cyfranogiad ar raddfa fawr trwy broject *Find Your Talent*, gwerth £7m a gydlynwyd gan CCE (Creativity, Culture & Education) fel cynllun peilot mewn deg ardal ledled Lloegr. Roedd y project hwn yn canolbwyntio ar effeithiau darparu profiadau diwylliannol o safon uchel i bob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag eu hoedran a'u gallu.

Mae *Cultural attendance and public mental health - from research to practice* gan Mark O'Neill yn amlinellu'r gwaith ymchwil a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf.<sup>14</sup> Mae'r erthygl yn pwysleisio gwerth ymchwil epidemiolegol, maes sy'n datblygu, wrth astudio effaith gweithgareddau diwylliannol cyffredinol ar iechyd. Mae'n pwysleisio y dylai polisïau iechyd cyhoeddus roi gwerth ar ddiwylliant gan nodi '*If engagement with culture enriches people's experience to the degree that it creates healthier, more flourishing lives, then the issue of democratic access is critical.*'

---

<sup>14</sup> Erthygl yn *Journal of Public Mental Health*, Cyfrol 9, cyhoeddiad 4 2010,

## Atodiad 6: Gweddnewid Dyfodol Plant

*Gweddnewid Dyfodol Plant* yw Strategaeth Amgueddfa Cymru er mwyn cefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, 2012-2015.<sup>15</sup> Cafodd ei datblygu o ganlyniad i lawer o drafod ac ymgynghori. Mae'n cydnabod ei bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau 'yn y maes' er mwyn creu'r llwybrau sy'n galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel i gymryd rhan yn ein gweithgareddau. Mae nodau'r strategaeth hon wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu sy'n cefnogi'r strategaeth Ymgysylltu Cymunedol.

Mae Gweddnewid Dyfodol Plant yn grŵp a sefydlwyd gan Amgueddfa Cymru yn dilyn seminar ymchwil Cyfranogiad Diwylliannol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Byw Mewn Tlodi a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 4 Hydref 2013. Yn ôl ei Gylch Gorchwyl, dyma ei bwrpas:

- Hyrwyddo gwerth cyfranogi mewn diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth fel ffordd o liniaru effeithiau tlodi a gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc
- Hyrwyddo, annog a chefnogi arferion gorau yn y maes hwn yng Nghymru
- Gweithio ar draws sectorau diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau, gan annog dull gweithredu cydgysylltiedig, rhannu'r hyn a ddysgir a rhannu'r canlyniadau
- Pennu cyfleoedd ymchwil a symud ymlaen â nhw er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd a deialog ar effeithiau cyfranogiad diwylliannol ac effeithiau tlodi.

---

<sup>15</sup> Ceir copi o'r strategaeth yn [www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid\\_dyfodol/strategaeth](http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol/strategaeth).

Ymhlith yr aelodau cyfredol mae Llywodraeth Cymru, CyMAL, Cyngor Celfyddydau Cymru, Achub y Plant, Llenyddiaeth Cymru, Dinas a Sir Abertawe ac Amgueddfa Cymru.

Hyd yma, mae'r grŵp wedi cydlynu ymatebion i bolisiâu a strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr Adolygiad o'r Strategaeth Tlodi Plant a threfnu seminar ar gyfer trawstoriad o'r sector amgueddfeydd, awdurdodau lleol a chyff eraill ym maes diwylliant a threftadaeth gan gynnwys yr UNCRIC a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Yn y dyfodol, bwriedir datblygu fframwaith moesegol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc; gwneud rhagor o waith yn datblygu partneriaethau diwylliannol ystyrlon gydag Ardaloedd Arloesi; gwneud rhagor o waith i gydgyssylltu gwaith e.e. gyda Plant yng Nghymru, Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru a'r Grŵp Cyngori ar Drechu Tlodi; ceisio argyhoeddi Llywodraeth Cymru y dylai diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth fod yn rhan o bob strategaeth i drechu tlodi; a threfnu sioe deithiol neu arddangosfa draws-sector i dynnu sylw at ddiwylliant, y celfyddydau a threftadaeth yn trechu tlodi.

Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o ddatblygu'r drafodaeth gyhoeddus ar dlodi a chyfranogiad diwylliannol trwy raglennu cyhoeddus e.e. trafod y potensial ar gyfer arddangosfa am dlodi yn y Deyrnas Unedig mewn partneriaeth ag Achub y Plant.



## Atodiad 7: Llyfryddiaeth

Graham Black, *The Engaging Museum* (2005)

Jocelyn Dodd a Ceri Jones, *Mind, body, spirit: How museums impact health and well-being* (2014)

Bernadette Lynch, *Whose cake is it anyway? A collaborative investigation into engagement and participation in 12 museums and galleries in the UK*, (2011)

Bernadette Lynch, 'Whose cake is it anyway?': museums, civil society and the changing reality of public engagement' yn *Museums and Migration* (2014)

Janet Marstine, Alexander Bauer a Chelsea Haines eds., *New Directions in Museum Ethics* (2013)

Mark O'Neill, 'Cultural attendance and public mental health – from research to practice', in the *Journal of Public Mental Health*, Cyfrol 9, rhifyn 4 (2010)

Nina Simon, *The Participatory Museum* (2010)

Sheila Watson gol., *Museum and their Communities* (2007)

Sefydliad Bevan, *Poverty and social exclusion in Wales* (2010)

